

<u>Aelodau:</u>	Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (DGHT) Prif Gwnstabl Simon Prince (PG) Prif Gwnstabl Cynorthwyol Simon Powell (PGC) Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (SG) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
<u>Hefyd yn bresennol:</u>	Uwch-arolygydd Huw Meredith (HM) Rhingyll Christina Fraser, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (CF) Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff Dros Dro, SCHTh (HM-H) Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR) Mrs Kerrie Phillips, Ymgynghorydd Polisi, SCHTh (KP) Mr Chris James, Dadansoddydd Trosedd a Chudd-wybodaeth (CJ) Miss Angharad Lewis, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (AL) Miss Karys Thomas, Swyddog Ymchwil, SCHTh (KT)
<u>Ymddiheuriadau:</u>	Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG) Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (CM)

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
PAB 189	Yr Heddlu i roi canlyniadau'r gwaith a wnaed ar gyfer adnabod themâu o ran galwadau a dderbyniwyd i SR.	Ar waith – Y Prif Uwcharolygydd Pam Kelly yn rhoi cyflwyniad i SCHTh ar 27 Mawrth 2015
PAB 190	PK i roi arwydd i SCHTh o ran pryd fydd y system proffil galw ar gael i'r SCHTh ei gweld erbyn diwedd Chwefror.	Cwblhawyd

PAB 191	Yr Heddlu i egluro pa droseddau oedd yn is nag y buont mewn 3 blynedd (Cyfeiriad yng nghofnodion cofnodion mis Chwefror y Grŵp Prif Swyddogion)	Cwblhawyd
PAB 192	Yr Heddlu i roi canlyniadau'r Archwiliad i Gofnodi Troseddau sydd i'w gynnal fis Mawrth 2015 i SR.	Ar waith
PAB 193	Yr Heddlu i nodi pa un ai a fu ymchwil i lwyddiant eu hymagwedd tuag at leihau yfed a gyrru.	Cwblhawyd
PAB 194	Yr Heddlu i ddadansoddi cyfradd ddatrys digwyddiadau Stopio a Chwilio yng ngoleuni'r gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithdrefnau Stopio a Chwilio, ac adrodd i SCHTh ar yr un peth.	Cwblhawyd
PAB 195	Yr Heddlu i roi manylion ynglŷn â'r ôl-groniadau mewn perthynas â throseddau cyfrifiadurol i SCHTh a'r cynnydd a wnaed gyda'r un fath.	Cwblhawyd
PAB 196	Yr Heddlu i gadarnhau cyfran ffeiliau penderfyniadau'r heddlu a grëwyd gan y porth digidol yng nghyd-destun nifer cyffredinol y ffeiliau achos.	Cwblhawyd
PAB 197	SCHTh i gyhoeddi canlyniadau terfynol yr arolwg Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus cyn gynted ag y byddant ar gael.	Ar waith
PAB 198	Monitro Absenoldeb Salwch i'w ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.	Ar waith
PAB 199	Yr Heddlu i gadarnhau cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol a nifer y staff ar Gynlluniau Perfformiad o gwmpas absenoldeb salwch ac ymddygiad ac sy'n ymwneud ag Adolygiadau o Ddatblygiad Personol.	Ar waith
PAB 200	SG i gadarnhau pa un ai a yw'r gostyngiad yn nifer yr hawliadau sifil yn erbyn yr heddlu'n arwain at ostyngiad yn y swm a wobrwyr.	Ar waith
PAB 201	CHTh a'r PG i gwrdd er mwyn trafod cefnogaeth o'r awyr ac awyrennau'r heddlu.	Cwblhawyd

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2015 a Materion yn Codi

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod ac eithrio un mân newid i dudalen 5 yn ôl cais y PG. Ymholodd y DGHT ynghylch y diweddariad a roddwyd ar gyfer PAB 195 lle nodwyd bod 106 o'r 172 o achosion yn yr ôl-groniadau troseddau cyfrifiadurol yn ymwneud â Cham-drin Plant, ac roedd hyn yn bryder difrifol. Cadarnhaodd y PGC bod achosion yn cael eu trin yn allanol er mwyn delio â galw na welwyd ei debyg o'r blaen, bydd 4 aelod o staff arall hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r uned i ateb galw'r dyfodol.

Cyflwyniad gan yr Uwcharolygydd Huw Meredith ar Blismona'r Ffyrdd yn Nyfed-Powys

Rhoddodd HM drosolwg i'r Bwrdd o Blismona'r Ffyrdd yn Nyfed-Powys a'r gweithgaredd a gyflawnwyd i leihau'r nifer o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Cyflwynwyd map yn nodi lleoliad gwrthdrawiadau yn ystod 2014 lle'r oedd rhywun neu rywrai wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol i'r Bwrdd. Nodwyd na chanfuwyd unrhyw batrymau arwyddocaol ynghylch lleoliad y gwrthdrawiadau hyn. Tra cafwyd gostyngiad o ran Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd rhwng 2011 a 2014, gwelwyd cynnydd nodedig rhwng 2013 a 2014. Ni chanfuwyd unrhyw batrymau canfyddadwy.

Rhoddodd HM wybod i'r Bwrdd am weithredu ataliol a oedd yn cael ei chyflwyno i dargedu'r 5 mater angheuol: goryrru, alcohol a chyffuriau, gyrru neu feicio peryglus/diofal, dim gwregys diogelwch a defnyddio ffôn symudol. Nododd HM bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Eglurwyd bod gofyn i awdurdodau lleol wneud cynnig am grantiau diogelwch y ffyrdd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella teithiau. Nododd HM bod gostyngiad yn y nifer o swyddogion awdurdod lleol sy'n gweithio ar ddiogelwch y ffyrdd ar draws pob un o'r 4 sir o fewn Dyfed-Powys.

Rhoddwyd diweddariad mewn perthynas ag Ymgyrch Darwen sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch y ffyrdd. Nodwyd bod 5 beic modur newydd wedi'u prynu ar gyfer ymgyrchoedd 2015. Roedd ymgyrch gyntaf Darwen i'w chynnal ar 29 Mawrth a nodwyd y byddai 8 o weithredwyr GanBwyll allan o fewn ardal yr Heddlu'r diwrnod hwnnw, yn bennaf ar draws Ceredigion a Phowys. Cadarnhaodd HM bod 10 dyddiad pellach wedi'u nodi drwy gydol yr haf, yn ogystal ag ymgyrchoedd ad hoc.

Trafododd y Bwrdd y prif arestiadau traffig ar gyfer 2011-2014, a chanfuwyd mai 'gyrru cerbyd modur tra bod lefel alcohol yn fwy na'r terfyn' oedd y rheswm pennaf o bell ffordd. Rhoddodd HM wybod i'r Bwrdd am y dulliau a oedd yn cael eu defnyddio i dargedu yfed a gyrru gan gynnwys yr ymgyrchoedd targedig dros y Nadolig a'r haf. Mae hwn hefyd yn fater y mae'r adran plismona'r ffyrdd yn canolbwyntio arno drwy gydol y flwyddyn.

Nodwyd bod 1,039 o'r 1,574 hysbysiad cosb benodol a roddwyd yn ystod yr Ymgyrch Gwregys Diogelwch Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2014 wedi'u cyflawni gan Heddlu Dyfed-Powys. Yn yr un modd, roedd 447 o'r 914 hysbysiad cosb benodol a roddwyd yn ystod yr Ymgyrch Ffôn Symudol Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2014 wedi'u cyflawni gan Heddlu Dyfed-Powys.

Yn dilyn cyflwyniad HM, ymholodd y DGHT h a oedd yr Heddlu'n ymchwilio i effaith gostyngiadau o ran graeanu a goleuo strydoedd ar blismona'r ffyrdd. Nododd HM bod dros 90% o ddamweiniau traffig y ffyrdd yn digwydd o ganlyniad i wallau gan y gyrrwr. Rhoddwyd esboniad o'r broses o hysbysu awdurdodau lleol ynghylch materion a ganfyddir ynghylch priffyrdd. Nododd y PG ei bod yn anodd dweud pa effaith y byddai toriadau'r Cyngor yn eu cael ar blismona'r ffyrdd hyd nes bod digon o amser wedi pasio i ganiatáu asesiad o'r newid o ran ffactorau achosiaeth.

Ymholodd SR ynghylch sut y gwahaniaethwyd rhwng ffactorau achosiaeth. Cadarnhaodd HM y byddai'r swyddog a oedd yn ymchwilio, yn union ar ôl gwrthdrawiad, yn nodi'r holl ffactorau achosiaeth gan felly arwain at y posibilrwydd o un ddamwain yn cael ei chynrychioli nifer o weithiau o fewn y graff ffactorau achosiaeth.

Nododd y DGHT h y diffyg comisiynu ynghylch plismona'r ffyrdd a chadarnhaodd bod yr arolwg a gyflawnwyd gan y Comisiynydd wedi canfod y dylai'r incwm a gynhyrchir gan gyrsiau Ail-hyfforddi Gyrwyr gael ei fuddsoddi i weithgaredd comisiynu yn ymwneud â phlismona'r ffyrdd.

Nododd y PG er y bu diffyg comisiynu o ran plismona'r ffydd, nad oedd unrhyw ddiffyg gweithgarwch o ran mater. Cymeradwyodd y PG arweinyddiaeth HM o ran y ddamwain angheuol yn Aberhonddu, gweithgarwch ei dîm a'r ymagwedd broffesiynol a gymerwyd tuag at ymchwilio i'r digwyddiad.

Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 5

Rhoddwyd diweddariad ar Reoli Troseddwr yn Integredig. Cadarnhaodd y PGC bod 278 o droseddwr o fewn y cynllun gyda chwymp rhagweledig o 588 o droseddau a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y galw ar yr Heddlu. Nodwyd bod y cynllun ar hyn o bryd yng nghamau cyntaf ei ddatblygiad. Ymholodd SR ynghylch y meini prawf o ran troseddwr yn cael eu derbyn i'r cynllun - cadarnhaodd y PG bod angen lefel uchel o droseddu.

Rhoddwyd diweddariad pellach mewn perthynas â phroffiliau Troseddau Difrifol ac ar Raddfa Fawr a oedd ar hyn o bryd yn cael eu cynhyrchu gan DCI Miles. Cadarnhaodd y PGC y byddai'n cyflwyno hynny i SCHTh unwaith y byddai wedi'i gwblhau.

Symudodd y trafodion i'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran Tracio fy Nhrosedd. Nodwyd bod fersiwn Gymraeg nawr ar gael a rhagwelwyd y byddai'n cymryd tua 6 wythnos i'r TG gael ei datblygu o fewn yr Heddlu. Disgwyliwyd amserlen gweithredu erbyn diwedd y mis.

Rhoddodd y PGC arwydd o'r arolygiadau AHM i ddod, gan gynnwys arolygiad o ran trwyddedu arfau saethu, trais er anrhydedd a gwendidau mewn ffeiliau achos yr erlyniad. Nododd DGHTTh bryderon ynghylch y materion a ganfuwyd gan adroddiad Cam-fanteisio ar Blant AHM mewn perthynas ag oediadau Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG). Cadarnhaodd y PGC fod Ditectif Arolygwyr wedi'u secondio i GEG i gynorthwyo gyda'r gwaith cyfredol ac i weithio drwy'r achosion yn fwy effeithlon. Mae'r Pennaeth Trosedd hefyd yn cyfarfod â GEG yn fisol a'r PGC yn chwarterol ar lefel Cymru Gyfan.

The ACC provided an indication of the upcoming HMIC inspections including an inspection surrounding firearms licensing, honour based violence and vulnerability in prosecution case files.

Nododd y DGHTTh bryderon pellach ynghylch agwedd swyddogion tuag at blant mewn perygl, gyda AHM yn canfod ffurflen lle cyfeiriwyd at blentyn bregus fel rhywun a oedd 'eisiau sylw'. Cadarnhaodd y PGC fod prosesau a diwylliant yn cael eu harchwilio fel rhan o Ymgyrch Celtic er mwyn mynd i'r afael â'r materion ac i ddarparu hyfforddiant yn ymwneud â Cham-fanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB). Roedd lefelau staff hefyd wedi'u cynyddu i gwrdd â'r galw.

Pryder terfynol DGHTH ynghylch yr adroddiad oedd digwyddiad lle bu unigolyn bregus 17 oed dan gadw yn nalfa'r Heddlu. Cadarnhaodd y PGC fod y mater hwn wedi'i godi yng Ngrŵp Defnyddwyr Strategol y Ddalfa ac o ganlyniad fod rhingylliaid y ddalfa nawr wedi derbyn hyfforddiant a chyngor priodol.

Nododd SR fod oediadau wrth symud ymlaen gyda rhai ymchwiliadau wedi'u canfod a chwestiynodd y lefelau o achosion sy'n cymryd mwy na 3 mis i'w datrys. Cadarnhaodd y PGC fod achosion cam-drin rhywiol yn achosion eithriadol o sensitif a chymhleth a fyddai weithiau'n cymryd mwy na 3 mis i'w datrys. Sicrhawyd y Bwrdd bod Ditectif Arolygwyr yn archwilio pob achos o drosedd rhyw er mwyn sicrhau eu bod yn mynd rhagddynt mewn modd amserol.

Symudodd trafodaethau ymlaen i'r newidiadau yn y Gofyniad Plismona Strategol (GPS) i gynnwys achosion CRhB. Roedd newidiadau wedi'u gwneud yn weithrediadol i gyfrif am y newid gan gynnwys cynnydd o 21 ditectif yn yr uned Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed, aseinio ymchwilydd CRhB arweiniol i bob sir a dod i gytundeb ynghylch cyllido swyddogion ôl-drafod ar gyfer unigolion ar goll gyda SCHTh. Er mwyn parhau i wella gweithdrefnau, roedd yr Heddlu hefyd wedi gofyn i'r Coleg Plismona ddod at yr Heddlu yng Ngorffennaf i gynnal Adolygiad gan Gydweithwyr.

Ymholodd SR beth oedd yr Heddlu'n ei wneud ar lawr gwlad i godi ymwybyddiaeth. Cadarnhaodd y PGC fod nifer o gyhoeddiadau wedi'u creu a bod CRhB nawr yn rhan o'r rhaglenni hyfforddi ar gyfer recriwtiaid newydd. Roedd y materion hefyd yn cael eu trafod gyda Rhingylliaid ac Arolygwyr mewn ymgais i newid y diwylliant ynghylch CRhB.

Dilynodd trafodaethau ynghylch graddfa CRhB o fewn ardal Dyfed-Powys ar angen i deilwra'r gwasanaeth a ddarperir i anghenion ardal ein Heddlu.

Ymholodd DGHTH a oedd yr Heddlu'n barod ar gyfer yr arolwg Trwyddedu Arfau Saethu a oedd i ddod. Nododd SG mae thema gyffredinol yr arolwg oedd 'dysgu gwersi' ac mae ei amcan oedd edrych ar arfer gorau a safoni proses ar draws holl ardaloedd yr Heddlu. Themâu allweddol yr arolwg fyddai trefn lywodraethol, risg, hyfforddi a rhannu gwybodaeth. Nodwyd bod yr Heddlu nawr yn edrych ar y darlun ehangach wrth roi trwyddedau arfau saethu ac yn hytrach na bod yn fater i'r Pencadlys yn unig, bod pob swyddog nawr yn gyfrifol am faterion arfau saethu.

Nododd DGHTh fwletin diweddar a oedd yn penodi y byddai ymchwiliadau i achosion o gythrwfl domestig lle gwnaed cais am drwydded arfau saethu neu lle'r oedd un yn bodoli.

Gyda golwg ar drais er anrhydedd, nodwyd mai nifer cymharol fechan o achosion a oedd gan Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd.

Trafododd y Bwrdd y GPS. Ymholodd DGHTh a oedd yr Heddlu'n hyderus fod cynlluniau mewn lle i fynd i'r afael â'r coch a dderbyniwyd ar gyfer argyfyngau sifil posibl a'r tri coch ar gyfer seiber- cadarnhaodd y PGC fod cynlluniau gweithredu perthnasol mewn lle.

Symudodd trafodion ymlaen i'r Datrysiadau Cymunedol Oedolion lle cadarnhawyd bod 55 wedi'u rhoi o fewn y 2 fis cyntaf a oedd yn cyfrif am oddeutu 5% o'r holl ddatrysiadau. Roedd hyn o fewn y gyfradd ddisgwyliedig. Nododd y PGC y byddai adolygiad yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Mawrth i werthuso sut roedd y cynllun yn gweithio. Cadarnhaodd y PGC fod 5 ohonynt hyd yn hyn yn ymwneud â Gwir Niwed Corfforol, yn genedlaethol, ni ddefnyddid y gosb i'r diben hwn.

Nododd DGHTh ei fod ef a CHTh yn llwyr gefnogi'r modd yr oedd yr Heddlu'n ymdrin â Datrysiadau Cymunedol Oedolion, yn enwedig o gymharu â'r modd yr oedd ardaloedd heddlu eraill yn ymdrin â hwy.

Ymholwyd a oedd y nifer o rybuddion a roddwyd yn lleihau o ganlyniad i roi datrysiadau cymunedol oedolion. Cadarnhaodd y PGC ei fod yn glir bod cysylltiad a bod lefelau rhybuddion yn debygol o ostwng wrth i'r cynllun symud ymlaen.

Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 1

Rhodddwyd diweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas â lansiad swyddogol gwasanaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Gwalia. Cadarnhaodd DGHTh fod pob awdurdod unedol wedi'u gwahodd i'r cyflwyniad er mwyn caniatáu i gwestiynau gael eu cyfeirio atynt. Roedd gan DGHTh ddiddordeb mewn clywed adborth gan yr Heddlu wrth i'r cynllun symud ymlaen. Nododd CF mai'r unig bryder a godwyd gan yr Heddlu oedd

bod angen i gyfathrebu rhwng yr Adran Gymdogaethau a Gwalia fod yn gryfach wrth fynd ymlaen.

Cam Gweithredu: DGHTH i adborthi i Gwalia y pryderon a godwyd gan CF ynghylch yr angen i gryfhau cyfathrebu rhwng Gwalia a Chymdogaethau.

Yna rhoddwyd diweddariadau mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd i ymladd camddefnyddio sylweddau a chyswllt alcohol. Cadarnhawyd y byddai holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael yr un lefel o wasanaeth, waeth ar ba gam bynnag y gwnaethant ymuno â'r gwasanaeth.

Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu adborth i'r peilot Cyswllt Alcohol ar y marc 6 mis.

Cadarnhaodd DGHTH y byddid yn edrych eto ar y contract Troseddau Ieuencid wedi i'r contract gyda Hafan Cymru ddod i ben.

Symudodd DGHTH ymlaen i roi diweddariad mewn perthynas â Chymorth i Ddiodefwr; gan ddiolch i'r Heddlu am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth barhaus. Nododd fod Heddluoedd eraill wedi profi cynnydd o 16%-120% yn fwy o ddiodefwr yn ceisio cymorth; roedd Dyfed-Powys wedi cyflawni cynnydd o 200%.

Mewn perthynas â chronfa'r Comisiynydd, nododd DGHTH ei fod yn dal i fod yn ddefnydd effeithiol o arian a fydd gyda gobaith yn cael effaith ar atal trosedd. Wrth symud ymlaen, roedd yn angenrheidiol ystyried sut y gallai'r gronfa barhau'n weithredol waeth beth fyddai'n digwydd i'r swydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Cam Gweithredu: DGHTH a CHTh i drafod dyfodol cronfa'r Comisiynydd gyda'r PG.

Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh

Cyflwynodd SR adroddiad perfformiad SCHTh i'r Bwrdd. Nodwyd y bu cynnydd yn y troseddau cyhoeddiadau anllad yn y grŵp oedran 10-15. Dilynodd trafodaethau ynghylch amgylchiadau achosion o'r fath. Cadarnhawyd o'r 38 o achosion yn 2014, mai dim ond 2 oedd yn ymwneud ag achosion o blant yn anfon delweddau at

oedolion. Yn yr achosion hyn, anfonwyd pecynnau i ardaloedd yr heddlu lle y credwyd bod yr oedolyn yn preswyllo.

Ymholodd DGHTh ynghylch pwy fyddai'n rhoi gwybod i'r heddlu am y troseddau hyn; cadarnhaodd CF ei fod yn gyfuniad o ymwneud ysgolion a'r rhieni. Eglurwyd nad yw plant yn cael eu troseddoli o ganlyniad i'r troseddau hyn ac na chymerir unrhyw gamau yn eu herbyn.

Ymholodd SR ynghylch y nifer o achosion lle na recordiwyd oedran y troseddwr. Cadarnhaodd y PGC fod hyn oherwydd nad oedd y wybodaeth wedi ei darparu iddynt (er enghraifft, lle nad wyddys pwy oedd wedi anfon y ddelwedd).

Dilynodd trafodaethau mewn perthynas â gwybodaeth a ddarparwyd ar Drais yn Erbyn Person. Nododd SR nad oedd 1 o bob 5 achos yn cael eu symud ymlaen o ganlyniad i anawsterau tystiolaethol. Cadarnhaodd y PGC fod tuedd yn datblygu o ran troseddau'n digwydd mewn sefyllfaoedd preifat. Canlyniad hyn oedd bod llai o dystiolaeth ar gael i gynorthwyo'r erlyniad ac roedd hyn yn arwain at fethiant y prawf tystiolaethol.

Symudodd trafodaethau ymlaen at weithredu'r ddeddfwriaeth defnyddio cyffuriau a gyrru newydd. Cadarnhaodd y PGC mai dim ond newydd ddod ar gael oedd y citiau profi cyffuriau newydd. Nodwyd fod y profion yn eithaf drud i'w prynu ac nad oeddynt yn canfod pob un o'r gwahanol fathau o gyffuriau ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y PGC fod yr Heddlu yn y broses o brynu 200 cit. Mae'r PGC, fel Cadeirydd Grŵp Strategol Plismona'r Ffyrdd Cymru Gyfan, wedi tasgio Heddluoedd Gogledd a De Cymru i werthuso'i ddefnydd ac adrodd yn ôl i'w cyfarfod yng Ngorffennaf. Bwriadwyd gweithredu ymagwedd dargedig Cymru Gyfan. Nodwyd bod 113 o bobl wedi'u harestio am ddefnyddio cyffuriau a gyrru yn ystod y 3 blynedd diwethaf ac y byddai'r rhif hwn yn debygol o godi dros amser wrth weithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

Ymholodd SR ynghylch y rhesymau am yr amrywiadau sylweddol o ran cymarebau digwyddiadau i droseddau ar draws ardaloedd tiriogaethol. Nodwyd pryderon ynghylch y ffigurau a rannwyd gyda SCHTh mewn perthynas â digwyddiadau yn gysylltiedig â dioddefwyr risg uchel trais ddomestig. Cytunwyd y byddai'r PGC a SR yn cymharu ffigurau er mwyn sicrhau bod y data cywir yn cael ei drosglwyddo. Nododd y PGC, fodd bynnag, fod gweithdrefnau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu

Risg mewn lle i ganfod rhai sy'n dioddef aml-droseddau yn eu herbyn a rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro.

Cam Gweithredu: PGC a SR i wirio ffigurau cymarebau digwyddiadau i droseddau er mwyn sicrhau gweithio oddi ar yr un ffigurau.

Ymholodd SR pa waith roedd yr Heddlu'n ei gyflawni i ddod o hyd i'r Troseddwr Rhyw Cofrestredig (TRhC) o Ddyfed-Powys. Cadarnhaodd y PGC fod y TRhC mewn cwestiwn wedi dychwelyd i'w wlad enedigol. Rhybuddiwyd a diweddarwyd yr awdurdodau perthnasol ynghylch y sefyllfa. Os byddai'r unigolyn yn dychwelyd i'r DU yna byddai'n cael ei arestio am ei fethiant i hysbysu'r Heddlu am ei deithiau tramor. Ymholodd SR a oedd ardal ddaearyddol Dyfed-Powys yn achosi risg o droseddwr yn teithio heb roi gwybod i'r Heddlu am ei daith/thaith. Cadarnhaodd y PGC na chanfuwyd unrhyw risg a bod yr Heddlu'n cydymffurfio â graddfeydd amser cenedlaethol.

Eglurodd SR fod rhai cwestiynau gan y cyhoedd wedi'u hymgorffori o fewn yr adroddiad, gan gynnwys a oedd dioddefwr yn cael gwybod canlyniad trosedd. Cadarnhaodd y PGC fod y dioddefwr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, hyd yn oed pan nad oedd unrhyw drosedd wedi'i chofnodi. Gwirir hyn eto gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol lle maent yn sicrhau bod y dioddefwr yn cael gwybod y canlyniad. Cadarnhaodd y PGC fod y Grŵp Defnyddwyr Trosedd yn ddiweddar wedi'i dasgio i edrych a oedd y prosesau sydd mewn lle yn gweithio'n dda. Cadarnhawyd mai rhif y dim-troseddau a recordiwyd yn 2012-2013 oedd 509, y rhif y flwyddyn ganlynol oedd 516, ac eleni, hyd yn hyn, y rhif oedd 430. Rhagwelwyd y byddai lefel uwch o ddim-trosedd yn cael ei weld wrth symud ymlaen o ganlyniad i droseddau nawr yn cael eu cofnodi wrth eu ffynhonnell.

Nodwyd pryderon ynghylch y gostyngiad yn y nifer o alwadau ymateb di-oed yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 munud ers Ionawr 2014. Cadarnhaodd y PGC fod y gostyngiad yn cael ei ymdrin drwy recriwtio ychwanegol. Gobeithid y byddai'r gwaith cyfredol mewn perthynas â Dadansoddi Galw hefyd yn helpu creu dealltwriaeth o'r anghenion o ran adnoddau ac yn sicrhau bod staff wedi'u lleoli'n briodol.

Ymholodd SR pam nad oedd ffigurau Dyfed-Powys wedi'u cyflwyno i gais Rhyddid Gwybodaeth diweddar gan y cyfryngau mewn perthynas â'r nifer o weithiau y

defnyddiwyd car yr heddlu i gludo cleifion i'r ysbyty pan nad oedd ambiwlans ar gael. Cadarnhaodd y PGC fod data ar gyfer Hydref 2014 – Ionawr 2015 wedi ei ddarparu i ITV; fodd bynnag ni ddarparwyd y ffigurau ar gyfer cais pellach am ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol gan y byddai casglu'r wybodaeth hynny wedi galw am fwy na'r oriau penodedig ac felly roedd y cais wedi ei eithrio. Cadarnhaodd y PG bod y sefyllfa'n cael ei fonitro'n barhaus. Cadarnhaodd y PGC fod nifer yr achosion yn 16 yn Nhachwedd, 18 yn Rhagfyr a 16 yn Ionawr. Cadarnhaodd CF fod y rhifau'n cael eu rhannu'n rheolaidd gyda SCHTh. Ni chanfuwyd unrhyw ardal yn darddiad i'r mater; yn hytrach roedd yn broblem ar draws ardal gyfan yr Heddlu.

Symudodd trafodaethau ymlaen i drafod a oedd unigolion wedi'u cosbi am fethu â chydymffurfio â Safonau Recordio Trosedd y Swyddfa Gartref. Cadarnhaodd y PGC y byddai ffocws ar newid diwylliant a datblygu o fewn yr Heddlu yn hytrach na chosbi aelodau o staff. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i helpu datblygu staff a'r ymwybyddiaeth ynghylch y safonau recordio troseddau. Nododd y PG na wnaeth arolwg AHEM i Gywirdeb Data Trosedd ganfod unrhyw ddiffyg cywirdeb o fewn y sefydliad ac, felly, ni fyddai unrhyw weithredu unigol yn erbyn aelodau o staff.

Adroddiadau diweddar

a. Adroddiad gan Dusty Kennedy, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Nodwyd yr adroddiad, a oedd yn flaenorol wedi ei gyflwyno i'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan, gan y Bwrdd. Nododd DGHT ei fod yn rhoi darlun calonogol gyda llawer o waith yn cael ei gyflawni rhwng Timau Troseddwy'r Ifanc a Swyddogion er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn cael eu dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Cadarnhawyd mai dim ond un troseddwr ifanc o Ddyfed-Powys a oedd yn y ddalfa ar hyn o bryd. Nododd y PG bod y cynnydd mewn troseddau wedi'u recordio mewn gwirionedd yn arwain at lai o bobl ifanc yn cyflawni trosedd newydd, a oedd yn arwydd cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, nododd y PG hefyd yr angen i fonitro'r sefyllfa gyda gofal gan y gall bod yn y ddalfa chwarae rôl bwysig iawn wrth atal ail-droseddu.

a) Cwestiynau o Gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau ynghylch cofnodion y GPS.

b. Cwestiynau pellach

Gofynnodd DGHTh am eglurhad ynghylch a oedd unrhyw ddelweddau wedi eu llwytho i fyny i'r gronfa ddata Adnabod Cenedlaethol. Cadarnhaodd CF fod ateb wedi ei roi yn flaenorol mewn Bwrdd Plismona yn cadarnhau bod delweddau wedi eu llwytho i fyny, fodd bynnag roedd yn annhebygol y byddent wedi'u defnyddio gan eu bod o ansawdd gwael. Byddai CF yn cadarnhau a oedd unrhyw ddelweddau o bobl ddiniwed wedi eu llwytho i fyny.

Cam Gweithredu: CF i gadarnhau a oedd unrhyw ddelweddau o bobl ddiniwed wedi'u llwytho i fyny i'r gronfa ddata Adnabod Cenedlaethol.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU		
Rhif cam gweithredu	Crynodeb	I'w symud yn ei flaen gan
PAB 202	DGHTh i adborthi i Gwalia y pryderon a godwyd gan CF ynghylch yr angen i gryrhau cyfathrebu rhwng Gwalia a Chymdogaethau.	DGHTh
PAB 203	Yr Heddlu i ddarparu adborth i'r peilot Cyswllt Alcohol ar y marc 6 mis.	Yr Heddlu
PAB 204	DGHTh a CHTh i drafod dyfodol cronfa'r Comisiynydd gyda'r PG.	DGHTh
PAB 205	PGC a SR i wirio ffigurau cymarebau digwyddiadau i droseddau er mwyn sicrhau gweithio oddi ar yr un ffigurau.	PGC
PAB 206	CF i gadarnhau a oedd unrhyw ddelweddau o bobl ddiniwed wedi'u llwytho i fyny i'r gronfa ddata Adnabod Cenedlaethol.	CF